Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# POLISI BIOAMRYWIAETH PCYDDS

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r Polisi Bioamrywiaeth yn mynegi ymrwymiad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ymagwedd gynaliadwy at fioamrywiaeth, fel rhan annatod o'i gweithgareddau. Mae'n dangos ein hymrwymiad i welliant parhaus mewn arferion amgylcheddol, a bydd yn llunio'r sail i ddatblygu cyfres o gynlluniau rheoli cynefin ar draws y campysau. Bydd y rhain wedyn yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyffredinol i'r Brifysgol gyfan.

## 2. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Polisi Bioamrywiaeth: Mae'r Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i gadw a gwella bioamrywiaeth ar draws ei hystâd tra'n ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli ei myfyrwyr, ei staff a'r gymuned ehangach mewn materion bioamrywiaeth drwy gymryd rhan mewn prosiectau a digwyddiadau.

## 3. Amcanion:

Yn unol â gweledigaeth y Polisi Bioamrywiaeth, felly, bydd rheoli bioamrywiaeth yn Y Drindod Dewi Sant yn cael ei alinio â'r amcanion canlynol:

i. Cadw a gwella cynefinoedd cyfredol a chreu cynefinoedd priodol newydd ar draws campysau'r Drindod Dewi Sant a'r Neuaddau Preswyl drwy ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) Y Drindod Dewi Sant.
ii. Ymgymryd ag arolygon ecolegol rheolaidd o holl gampysau a Neuaddau Preswyl y Brifysgol gyda'r bwriad o gadw cofnodion bioamrywiaeth cyfoes.
iii. Ystyried effeithiau ecolegol a chyfleoedd ar gyfer gwelliant ecolegol yn achos unrhyw ailwampio adeiladau ac unrhyw ddylunio adeiladau newydd neu weithgarwch adeiladu.
iv. Gweithio gyda chontractwyr cynnal tiroedd a rheolwyr eiddo i ddatblygu arferion rheoli'r tir sydd yn cadw ac yn gwella bioamrywiaeth.
v. Addysgu myfyrwyr, staff a thrigolion lleol am werth bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith cadwraeth yr ymgymerir ag ef gan y Brifysgol.
vi. Cynnwys myfyrwyr, staff a'r gymuned leol mewn materion bioamrywiaeth drwy wirfoddoli, rhaglenni addysgol a chyfleoedd academaidd.
vii. Cynnal perthnasau rhwng partïon priodol a chyfranogwyr o fewn y Brifysgol.
viii. Defnyddio bioamrywiaeth i hybu lles a byw'n iach drwy well adnoddau mewn mannau awyr agored.

DRAFT

ix. Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau amgylcheddol ac awdurdodau lleol er mwyn rhannu gwybodaeth ac adnoddau.
x. Chwilio am gyllid a grantiau er mwyn hwyluso nodau bioamrywiaeth y Brifysgol.
xi. Cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth y DU a'r UE parthed bioamrywiaeth.
xii. Cyfathrebu â rhanddeiliaid am ein hymrwymiadau a hyrwyddo manteision bioamrywiaeth.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn Y Drindod Dewi Sant.

## 4. Monitro

Bydd Y Drindod Dewi Sant yn sefydlu llinell sylfaen ac yn ymgymryd ag arolygon ecolegol rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

## 5. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Polisi Amgylcheddol - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.0-Environmental-Sustainability-Policy-approved-21.05.15.pdf

Strategaeth Cynaliadwyedd - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/sustainability-strategy.pdf [Page(s) 9]

Cynllun Strategol - http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/uwtsd-strategic-plan.pdf [Page(s) 2, 6]

DRAFT

## 6. Goblygiadau o ran adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | Gall gynnwys costau cychwynnol yr arolwg llinell sylfaen |
| Staff | Wedi eu cynnwys o fewn staff cyfredol y gyfarwyddiaeth gweithrediadau. Gall fod â goblygiadau i gyfadrannau eraill (yn enwedig FACE) os darperir arolygon ecolegol mewnol. |
| Asedau | Dim wedi eu nodi ar hyn o bryd. |
| Partneriaid | Dim wedi eu nodi. |
| Cyfnodau Amser | Arolygon ecolegol ddwywaith y flwyddyn. |
| Arweinyddiaeth | Pennaeth Gweithredu Cynaliadwyedd. |

## 7. Asesiad effaith

| Goblygiad | A ystyriwyd yr effaith? (Do/Naddo) | Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | Gall nifer o ddarnau deddfwriaethol fod yn berthnasol e.e.<br>• Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) (Diwygiad) 2007 (SI 2007/1843)<br>• Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) (Diwygiad) Cymru a Lloegr 2009 (SI 2009/6)<br>• Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000<br>• Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywiaeth Atodlen 5) (Cymru) Gorchymyn 2008 (SI 2008/1927) |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | Datblygu Cynaliadwy (t.2). Dangosydd Cynaliadwyedd (t6) |
| Dadansoddiad Risg | Do | Mae ei angen ar gyfer SA1, S4C a'r Brifysgol gyfan |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Cydraddoldeb | Do | Dim wedi eu nodi. |
| Iaith Gymraeg | Do | Bydd y Polisi ar gael yn ddwyieithog. |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | *Gweler y dolenni uchod i bolisïau cyfredol* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | Do | Bydd diweddariadau perthnasol i'r polisi yn cael eu cyfathrebu â staff a myfyrwyr drwy fwletinau a MyDay. Bydd y Polisi ar gael ar wefan Y Drindod Dewi Sant. |

**Awdur(on) y polisi:**

Graham Allen - Prif Swyddog Polisi Amgylcheddol a Chydymffurfio.

**10. Rheoli Fersiynau Dogfennau**

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Newydd | GA | 01/03/2016 |
| 0.2 | Newidiadau a gynigiwyd gan Wasanaethau Corfforaethol | CG | 03/03/2016 |
| 0.3 | Mân newid i'r rhagarweiniad i gyfeirio at y defnydd o Gynlluniau Rheoli Cynefin. Cymal adolygu ii | GA | 18/05/2016 |
| 0.4 | Newid y paragraff rhagarweiniol gan ddileu'r dyddiad targed ar gyfer llunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | FW | 20/06/2017 |

(dylai hyn gynnwys taith y polisi trwy'r strwythur Pwyllgorau).

**Statws presennol y Polisi:** Drafft

**Mae'r Polisi'n berthnasol i:** AU

**Dyddiad cadarnhau:** 27 / 06 / 17**

**Dyddiad yn effeithiol o:** 27 /06/ 17**

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 27/06/18

**I'w gyhoeddi:** ar wefan YDDS